Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn:(029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk
County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel:(029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

# CYNGOR CAERDYDD

## DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

## DARPARIAETH GYNRADD GYMUNEDOL YN ARDALOEDD CATHAYS/GABALFA

**HYSBYSIR DRWY HYN** yn unol ag Adrannau 41, 42 1 43 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Caerdydd (sef "yr Awdurdod" o hyn ymlaen), ar ôl ymgynghori â'r bobl briodol ym marn y Cyngor, yn cynnig:

1) Cau Ysgol Gynradd Allensbank, Stryd Llanisien, Y Mynydd Bychan, Caerdydd CF14 3QE

   Cau Ysgol Gynradd Gladstone, Heol yr Eglwys Newydd, Cathays, Caerdydd CF14 3JL

   Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â dau ddosbarth mynediad (DM) ar safle a rennir presennol Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.

   Bydd gan yr ysgol newydd 420 o leoedd a bydd yn darparu ar gyfer yr ystod oedran 3-11 gan gynnwys 48 o leoedd meithrin Cyfwerth ag Amser Llawn (CALl, sef cyfanswm o 96 o leoedd rhan amser).

2) Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan, Heol Seland Newydd, Caerdydd, CF14 3BR i'r safle sydd ar hyn o bryd yn cael ei feddiannu gan Ysgol Gynradd Allensbank, Stryd Llanisien, Caerdydd CF14 3QE a chynyddu ei chapasiti i 420 o leoedd gan gynnwys 96 o leoedd meithrin rhan amser.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu gweithredu o fis Medi 2025.

Cynhelir yr ysgolion gan Gyngor Caerdydd ar hyn o bryd.

Cynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynigion hyn. Gellir gweld adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion, ymatebion yr Awdurdod a barn Estyn yn:

[Agenda'r Cabinet Ddydd Iau, 19 Hydref, 2023, 2:00 pm: Cyngor Caerdydd (moderngov.co.uk)]

O ran y cynnig ar gyfer dwy ysgol gynradd cyfrwng Saesneg dau DM newydd, cynigir:

- Y bydd yr ysgol yn ysgol gymunedol ac yn derbyn disgyblion o'r ddau ryw.
- Ni fydd trefniadau derbyn yr ysgol yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dethol disgyblion yn ôl gallu, na bandio disgyblion.

CARDIFF
CAERDYDD
Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn:(029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk
County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel:(029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

- Y bydd 60 o ddisgyblion yn gallu cael eu derbyn i Ddosbarth Derbyn yr ysgol (sef y grwp oedran perthnasol), yn 4 neu 5 oed, yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf pan weithredir y cynigion.
- Byddai'r ysgol newydd yn gwasanaethu dalgylchoedd y ddwy ysgol bresennol y mae'n eu disodli.

Cyngor Caerdydd fel yr Awdurdod Addysg Lleol fydd yr awdurdod derbyn.

O ran y cynnig i drosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i'r adeilad sy'n cael ei feddiannu ar hyn o bryd gan Ysgol Gynradd Allensbank, cynigir:

- Y bydd 60 o ddisgyblion yn gallu cael eu derbyn i Ddosbarth Derbyn yr ysgol (sef y grwp oedran perthnasol), yn 4 neu 5 oed, yn ystod y flwyddyn ysgol gyntaf pan weithredir y cynigion.

- Bydd yr ysgol yn parhau i wasanaethu ei dalgylch bresennol.

Bydd rhieni plant a dderbyniwyd ar gyfer addysg feithrin yn dal angen gwneud cais am le yn yr ysgol berthnasol os ydynt am i'w plentyn i symud i'r dosbarth derbyn. Nid yw mynychu'r feithrinfa yn gwarantu y cewch eich derbyn i'r ysgol.

Bydd unrhyw drefniadau ar gyfer cludo disgyblion i'r ysgol yn cael eu gwneud yn unol â pholisïau presennol yr Awdurdod ar gludo plant i'r ysgol.  Gellir gweld polisi trafnidiaeth y Cyngor ar gyfer plant ysgol ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk

O fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef hyd at 06 Rhagfyr 2023, caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion hyn.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

Gellir hefyd anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd i'r cyfeiriad e-bost canlynol: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Nodwch fod rhaid i unrhyw wrthwynebiadau o'r fath gynnwys enw llawn a chyfeiriad post yr un sy'n gwrthwynebu.

Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu yn ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â sylwadau'r awdurdod ar y gwrthwynebiadau hynny, cyn pen 7 niwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y penderfynir ar y cynnig.

Dyddiedig 09 Tachwedd 2023

Llofnod: Leanne Weston
Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro
Cyngor Caerdydd

CARDIFF
CAERDYDD
Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk
County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

**NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond ei nod yw egluro'i ystyr cyffredinol)

Cynigir bod Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone (sydd ill dau yn ysgolion cyfrwng Saesneg) yn cau ac yn cael eu disodli gan ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â dau ddosbarth mynediad (DM) gyda meithrinfa, a hynny yn yr adeilad sy'n cael ei rannu ar hyn o bryd rhwng Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Monica.  Byddai'r feithrinfa yn cynnig 96 o lefydd rhan-amser.

Cynigir y byddai'r ysgol newydd yn gwasanaethu dalgylchoedd cyfunol y ddwy ysgol bresennol y mae'n eu disodli.

Cynigir hefyd bod Ysgol Mynydd Bychan (sy'n ysgol Gymraeg) yn cael ei throsglwyddo i'r safle sy'n cael ei feddiannu ar hyn o bryd gan Ysgol Gynradd Allensbank fel ysgol Gymraeg â dau ddosbarth mynediad (DM) gyda meithrinfa. Byddai'r feithrinfa yn cynnig 96 o lefydd rhan-amser.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu gweithredu o fis Medi 2025.

Mae yna ddosbarth ymyrraeth gynnar Lleferydd ac Iaith sy'n cael ei gynnal gan Ysgol Gynradd Allensbank. Mae'r Cyngor yn derbyn hyd at 8 plentyn Cyfnod Sylfaen i'r ddarpariaeth dinas gyfan hon, nad oeddent yn gwneud cynnydd digonol, ond sydd â digon o botensial i ddychwelyd i'w hysgol brif ffrwd leol.

Mae'r lleoliadau yn para rhwng 1-3 blynedd, gan ddibynnu ar gynnydd. Mae'r disgyblion yn cael eu cofrestru'n ddeuol yn eu hysgol leol, ac yn cael cefnogaeth i ddychwelyd i'r ysgol honno ar ddiwedd y lleoliad. Mae disgyblion yn parhau i fynychu eu hysgol leol o leiaf un diwrnod yr wythnos, er mwyn cadw cyswllt â ffrindiau lleol a pharatoi at ddychwelyd yn llwyddiannus i'w hysgol leol.

Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i sefydlu'r dosbarth Lleferydd ac Iaith dinas gyfan o fewn yr ysgol newydd mewn ymgynghoriad â chorff / cyrff llywodraethu'r ysgol berthnasol, gan ystyried dyheadau pob ysgol.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn amodol ar drosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i'r safle sy'n cael ei feddiannu ar hyn o bryd gan Ysgol Mynydd Bychan.  Cyhoeddwyd y cynnig hwn ar wahân a gellir ei weld ar wefan yr ysgol www.stmonicasschool.co.uk